Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

**TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD**

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl367

**Amseru: Unigol**

**Teitl: DPP2455 Rhaglen Arweinyddiaeth Graddedigion**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**
Mae'r Rhaglen Arweinyddiaeth Graddedigion Cenedlaethol yn hyfforddi ac yn datblygu graddedigion i ddod yn arweinwyr ym mhlismona bro. Rhoddir cyfranwyr mewn rhai o'r cymunedau mwyaf heriol yng Nghymru a Lloegr, lle gallant ddod i adnabod y materion yn agos a datblygu syniadau a thechnegau blaengar i ymdrin â'r heriau sy'n wynebu preswylwyr.

Mae'r rhaglen yn adnabod yn benodol swyddogion sydd wedi eu hymrwymo i'r rôl Plismona Bro a hefyd yn gosod eu dosbarthiad ar lwybr carlam, o hyfforddiant i ddyletswyddau gweithredol.

Mae'r rhaglen yn ein galluogi i agor drws arall i ymuno â Heddlu Dyfed Powys fel Swyddog, ac y mae'n cyd-fynd â'n hamcanion recriwtio, hynny yw, cynyddu amrywiaeth ein pobl, gan atgyfnerthu Timau Plismona Bro Arbenigol.

**Argymhelliad:**
Argymhellir bod y contract ar gyfer darparu'r Rhaglen Arweinyddiaeth Graddedigion yn cael ei ddyfarnu i Police Now am gyfnod o 12 mis.

Cyfanswm cost y ddarpariaeth yw £50,000.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 01/04/2025**